EGLWYS EMAUS BANGOR

# Y NEGESYDD

## MAI 2023

## GAIR GAN Y GWEINIDOG

### GOFALU

### IOAN 21: 15 -17

**15 Pan oedden nhw wedi gorffen bwyta, dyma Iesu'n troi at Simon Pedr a dweud,**
*"Simon fab Ioan, wyt ti wir yn fy ngharu i fwy na'r rhain?",*
*"Ydw, Arglwydd,"* **atebodd,** *"rwyt ti'n gwybod mod i'n dy garu di."*
**Dwedodd Iesu wrtho,** *"Gofala am fy ŵyn."*
**16 Yna gofynnodd Iesu eto,** *"Simon fab Ioan, wyt ti wir yn fy ngharu i?"*
**Dwedodd eto,** *"Ydw, Arglwydd, rwyt ti'n gwybod mod i'n dy garu di."*
**Meddai Iesu,** *"Arwain fy nefaid."*
**17 Yna gofynnodd Iesu iddo'r drydedd waith,** *"Simon fab Ioan, wyt ti'n fy*
*ngharu i?"* **Roedd Pedr yn ddigalon fod Iesu wedi gofyn eto'r drydedd waith,**
*"Wyt ti'n fy ngharu i?", "Arglwydd,"* **meddai,** *"rwyt ti'n gwybod pob peth;*
*rwyt ti'n gwybod mod i'n dy garu di."* **Yna dwedodd Iesu,** *"Gofala am fy nefaid".*

**Os ydych chi ar y bws neu mewn caffi, ydych chi'n un sy'n hoffi gwrando ar bobl yn sgwrsio? Dwi'n gwybod ein bod ni wedi cael ein siarsio er yn blant i beidio gwrando ar sgyrsiau pobl eraill ond da ni'n dal i hoffi gwneud.**
**Ar ddiwedd Efengyl Ioan fe gawn ni'r cyfle i wrando ar sgwrs reit bersonol rhwng Iesu ac un o'i ffrindiau agosaf sef Pedr. Mae'r sgwrs yma'n digwydd wedi i Pedr wadu Iesu ac wedi digwyddiadau dramatig y Groglith a'r Pasg. Er bod Pedr wedi cefnu dros dro ar ei Athro a'i ffrind, mae Iesu'n dal i weld y potensial ynddo ac yn ei alw i waith arbennig yn ei Eglwys yn y byd.**
**Mae hi'n ddiddorol i weld nad yw'n gofyn i Pedr** *"Wyt ti'n addo bod yn ffyddlon o hyn allan?"* **ond yn hytrach mae'n gofyn -** *"Wyt ti'n fy ngharu i?"* **sy'n ein hatgoffa mai rhoi ein calonnau i Grist yw sail ein ffydd ninnau hefyd nid medru profi Cristnogion mor dda fedrwn ni fod. Ond mae'r sgwrs gyda Phedr yn mynd gam ymhellach -** *"os wyt ti'n fy ngharu i, dwi am i ti garu pobl eraill a gofalu amdanyn nhw."*

**Er i Pedr gyflawni gwaith pwysig fel pregethwr yng nghyfnod yr Eglwys gynnar, mae'n ddiddorol mai'r alwad fwyaf a gafodd oedd i ofalu. Wrth i eglwysi heddiw drafod ffyrdd newydd o addoli, o gyfathrebu ac o estyn allan i bobl newydd, mae hi'n bwysig i ni beidio ag anghofio bod gofalu yn rhan greiddiol o'n galwad a'n bywyd.**

Trist yw meddwl nad ydy’r Eglwys Gristnogol bob amser wedi bod yn ofalgar o eraill gan gynnwys plant a’r bobl mwyaf bregus. Yn anffodus rydym yn dal i glywed heddiw am hanesion o’r gorffennol lle mae plant wedi dioddef camdriniaeth gan bobl o fewn yr Eglwys, yr union le y dylen nhw fod yn medru teimlo’n ddiogel ac wedi eu hamddiffyn. Yn ogystal â chamdriniaeth, mae na hanes hefyd o anwybyddu cwynion ac amddiffyn pobl rhag cael eu herlid sydd yr un mor warthus. Heddiw mae’r Eglwys Gristnogol yn ymateb i alwad nid yn unig i ofalu am blant a’r bobl mwyaf bregus ond i fod yn gymunedau tryloyw ac atebol.

Yma yng Nghymru yn 2001, ffurfiodd enwadau’r Annibynwyr, y Bedyddwyr a’r Presbyteriaid Banel Diogelu sy’n gyfrifol am hyfforddi a gwirio y rhai sy’n gweithio gyda phlant o fewn ein heglwysi. Mae eu gwaith bellach wedi ymestyn i gwmpasu’r rhai sy’n gweithio gydag oedolion bregus, gan gynnwys cleifion o bob math a rhai gydag anghenion addysgol arbennig. Mae’r gwaith yma’n hanfodol er mwyn sicrhau bod eglwysi o bob enwad yn parchu ac yn diogelu pawb ddaw drwy ddrysau eu hadeiladau.


Er bod cadw plant a phobl bregus yn ddiogel yn bwysig, mae’r drafodaeth am ddiogelwch yn agor sgwrs ehangach am y ffordd rydym yn trin y bobl o’n cwmpas ni yn yr eglwys ac yn y gymdeithas.
Yr hyn y medrwn ni fel eglwysi anelu i fod ydy cymunedau gofalgar sy’n gefnogol i bawb o’n haelodau a’n hymwelwyr pa bynnag brofiadau mae nhw’n mynd drwyddo. Mae creu cymuned anfeirniadol sy’n parchu ac yn trysori pob unigolyn yn fynegiant daearol o gariad Duw ddaeth atom yn Iesu Grist. Mae Iesu’n ein galw ni fel y gwahoddod Pedr, i fod yn ofalgar o eraill ac mae’n werth cymryd amser a defnyddio doethineb i weld y ffordd orau i wneud hynny yn enw Crist.

**BUGAIL MWYN Y PLANT A’R BREGUS,** *(tôn Bryntirion CFF263)*

Bugail mwyn y plant a’r bregus,
meddyg doeth yr hen a’r gwan,
amddiffynwr y dioddefwr
a’r diniwed ym mhob man:
Arglwydd Iesu,
Gad in weithio gyda thi.

Dyro gariad a doethineb
ym mhob sgwrs a phob ymddwyn,
parch at bob un person gwerthfawr
buost farw er eu mwyn:
Arglwydd Iesu
Gad i’n weithio gyda thi

Yno’n gefn i rai mewn gofid,
yno’n glust i wrando cwyn,
yno’n gaer i’r diamddiffyn
yno’i weithio er eu mwyn.
Arglwydd Iesu
Gad i’n weithio gyda thi .



## NEWYDDION BMS

Ddechrau Ebrill, anfonwyd siec am £874.70 at y BMS. Dyma gyfraniad blynyddol Eglwys Emaus at waith y gymdeithas.
Neilltuwyd £218.70 i'r Gronfa Argyfwng gyda'r gweddill yn mynd i'r Gronfa Gyffredinol.
Mae amryw yn gwneud rhodd gymorth a bydd hyn yn ychwanegu £129.00 at y cyfanswm – ychwanegiad buddiol iawn.
Llawer o ddiolch am bob rhodd er hyrwyddo lledaeniad yr efengyl mewn mannau anodd ac anghysbell a chefnogi gwaith ein partneriaid yn y maes cenhadol.

## PANAD A SGWRS

**Roedd llond tri bwrdd yn y festri i'r cyfarfod fis Ebrill. Roedd y gymysgfa arferol o'r selogion a rhai oedd wedi troi i fewn am y tro cyntaf ac yn ddiddorol, nid yw pawb yn aelodau yn Emaus. Bu sgwrsio difyr gan fwynhau darn o dorth frith flasus iawn – diolch i Menna a phaned dda iawn – diolch i Jennifer. Roedd un o'r selogion ar goll sef Bill Becket o Ddeiniolen. Roedd rheswm da am hynny gan ei fod draw yn Guisely yn ardal Leeds yn dathlu pen blwydd ei fam yn gant oed. Gobeithiwn ei fod wedi cael amser wrth ei fodd a danfonwn ein llongyfarchiadau at Mrs Becket. Mae'n edrych yn debyg mai hi yw'r aelod dwytha i gofio hanes dinistrio'r Bismarck – roedd tad Bill yn aelod o'r Llynges Farchnadol yn ystod y rhyfel. Mae'n dda gweld Bill yn fisol gan gadw cysylltiad ar ôl colli Pat fu mor selog hyd y diwedd. Mae'n amlwg fod Bill erbyn hyn yn elwa o'r cyswllt. Byddwn yn cyfarfod eto fis Mai ar y trydydd bnawn Mawrth a bydd groeso cynnes i bwy bynnag fydd am daro i mewn.**

*- Siân Arwel*

## PERFFORMIO



**Edrychir ymlaen at berfformiad Erin Fflur, merch Robin ac wyres y diweddar Emyr Williams, pan fydd yn ymddangos gyda Opra Cymru yn *Cosi Fan Tutte* yn Pontio ar Mai 12eg. Bydd hwn yn siwr o fod yn boblogaidd, gofyn archebu tocynnau ar fyrder!!**

## ANFON EIN COFION

Rydym yn anfon ein cofion at ein haelodau sydd mewn cartrefi gofal sef Enid Owen, Eirlys Owen,Gwyneth Williams, Iola Griffiths a Richard Gwynedd - rydych yn ein gweddïau'n aml. Rydym yn meddwl hefyd am eu teuluoedd ac yn diolch am waith gofalwyr y cartrefi sy'n gofalu mor ffyddlon amdanyn nhw.

## PRIODAS



***Longyfarchiadau i Mared, merch Rhys a Nesta Llwyd, Tregarth, ac i Aled Morgan ar eu priodas yn ddiweddar. Gweithwraig gymdeithasol yw Mared, ac Aled, sydd yn wreiddiol o Sir Fôn, yn beiriannydd.***
***Yng Nghaerdydd mae'r ddau yn byw bellach. Bu'r seremoni yng Nghaernarfon, a chafwyd gwledd i'r teulu a ffrindiau wedyn yn Bistro'r Felin, Llanrug. Yn ôl tystiolaeth pawb, cafwyd diwrnod llawen iawn.***

***Lluniodd Rhys yr englynion hyn i ddathlu'r achlysur :***

Heddiw mae'n iawn i weiddi – a ninnau
Mewn cinio a pharti,
Wedi darfod y priodi
Heno braf yw'r hwyl a sbri.

Aled, Mared a'u miri – a Nanw
Connor, Rhys a Cadi,
Waw! Tair wych a hynod dri,
A dyna pawb 'di henwi.

## LLONGYFARCHIADAU

ERYRI Eisteddfod

Llongyfarchiadau i Cian Iolen Rhys, 5, Garneddwen ar ei lwyddiant yn Eisteddfod yr Urdd, Rhanbarth Eryri yn ddiweddar. Cafodd Cian y wobr gyntaf yng nghystadleuaeth unawd Blwyddyn 10 a dan 19 oed, yn canu'r gân **'Y Cymro'** *(Meirion Williams)*. Hefyd, cafodd drydydd am ei gyflwyniad o'r alaw werin **'Mae'r Ddaear yn Glasu'**.

Pob lwc i Cian yn Eisteddfod Genedlaethol Yr Urdd a gynhelir yn Llanymddyfri rhwng 29ain Mai a'r 3ydd Mehefin.

## SWYDD NEWYDD

Pob dymuniad da i Nia Cerys, nith Sian Arwel ac Eurfryn, a merch-yng-nghyfraith Branwen a Gwynn Jarvis, sydd wedi ei phenodi i swydd newydd yn y Brifysgol. Ym mis Medi, bydd yn dechrau ar ei gwaith fel Darlithydd mewn Newyddiaduraeth, gan ddal i wneud peth gwaith i'r BBC. Addysgwyd Nia yn Ysgol David Hughes, Coleg y Brifysgol Llundain a Phrifysgol Caerdydd. Mae hi'n ferch i Beti Jones, Porthaethwy, chwaer Sian, sy'n un o'n cyfeillion yn Emaus, ac sy'n cymryd rhan yn ein gweithgareddau o dro i dro.

## CYDYMDEIMLO

***Rydym yn cydymdeimlo gyda'r Parch Jill Tomos ar golli ei thad yn ddiweddar ac yn cydymdeimlo hefyd â Gareth a Ruth Lunt Roberts ar golli modryb hoff.***
***Boed i chi deimlo pob cysur a nerth yn eich colled.***

## PWY OEDD MARY OWEN?

Emyn poblogaidd gan gynulleidfaoedd yw eiddo Mary Owen, **'Dyma gariad, pwy a'i traetha'**. Rhan o'r eglurhad ar ei boblogrwydd yw tôn ardderchog Wyn Morris, **'Garthowen'**, ond mae geiriau grymus yr emynyddes yn rhan bwysig o'i apêl hefyd. Pwy felly oedd hi, awdur y geiriau hyn *(rhif 199 yn Caneuon Ffydd)* a hefyd emyn rhif 507, **'Caed modd i faddau beiau'**?

Ganed Mary Rees yn Llansawel, Morgannwg, yn 1796, ugain mlynedd wedi geni Ann Thomas ym Maldwyn. Pan oedd Mary yn ifanc iawn, symudodd y teulu i dŷ o'r enw y Graig, yn Llansawel, ac yma y maged hi. Lle tawel a phrin ei boblogaeth oedd Llansawel ei phlentyndod, ond fe fu hi, yn ystod ei hoes, yn dyst i newid mawr ym mhatrwm cymdeithasol y fro. Nid oedd poblogaeth y plwyf i gyd yn 1782 ond 155; erbyn 1801 yr oedd yn 271; yn 1831, cyrhaeddodd 417, ac yn 1841, 612. Ond yn 1851, wedi dyfodiad y rheilffordd ac agor y gwaith haearn, yr oedd yn 1,737, ac yn 1871, rai blynyddoedd cyn marw'r emynydd, yr oedd yn 4,803 ac yn dal i gynyddu'n gyflym.

Mae ei hanes crefyddol hi a'i theulu'n adlewyrchu'r newidiadau hyn. Yn ystod plentyndod Mary, yr oeddid yn dal i gynnal achosion mewn tai annedd, a hynny yn aml yn wyneb gwrthwynebiad yr awdurdodau. Wedi hynny y daeth cyfnod y cynnydd mawr, a sefydlu capeli lluosog. Yn hanes teulu'r Graig, bu'n rhaid iddynt ymaelodi mewn eglwys a oedd rai milltiroedd o'u cartref i ddechrau, sef Maes-yr-haf, Castell Nedd; oddi yno symudasant i Soar, yn yr un dref. Yn ddiweddarach, bu'r teulu'n dal cysylltiad â'r Eglwys Annibynnol a sefydlwyd yn Llansawel, sef Bethesda. Soar, eglwys egnïol iawn, oedd mam eglwys Bethesda.

Yr oedd David Rees, tad Mary, yn un o arweinwyr crefyddol y gymdogaeth. Sefydlodd achos yn y Graig, gan fynnu trwyddedu'r cartref at y gwaith. Dysgodd Mary, yn blentyn, nifer mawr o emynau ar ei chof ar gyfer y gwasanaethau ar yr aelwyd. Yn ôl tystiolaeth ei merch, yr oedd ganddi gof nodedig o dda, a byddai'r gynulleidfa yn y Graig yn dibynnu llawer arni am emynau i'w canu.

Yn 1825, symudodd y teulu o'r Graig i Gastell Nedd, ac yn yr un flwyddyn, pridodd Mary Rees â chapten llong o'r dref, Thomas Davies. Ganwyd iddynt ddwy ferch, Mary Ann a Sarah. Eithr fe'i trawyd hi wedyn â nifer o golledion, yn un gyfres. Collodd ei phriod ar y môr, ac yna, yn fuan wedyn, bu farw ei thad, a fuasai'n gefn a chynhaliaeth iddi. Yna bu farw ei chwaer, yn wraig ifanc. Fe'i cafodd ei hun yn fam i ddau o blant bach, ynghanol y storm. Ond nid dyma ddiwedd ei phrofedigaethau. Yn 1836, priododd yr eilwaith â'r Parchedig Robert Owen, gweinidog yng Nghwmafan gerllaw. Am ugain mlynedd wedyn, bu ganddi groes drom i'w chario, oherwydd aeth ei phriod i afael y ddiod. Yn ystod ei flynyddoedd olaf, crwydryn alcoholaidd ydoedd. Dychwelodd i'w gartref i farw yn 1857, a Mary Owen, yn raslon, a weinodd arno yn ei gystudd olaf.

Er mwyn ceisio deall y boen a'r loes a achosodd hyn i Mary Owen, a deall y pwysau cymdeithasol a oedd arni mewn oes na wyddai fod alcoholiaeth yn salwch, y mae'n werth sylwi ar yr agwedd meddwl a amlygir ym mywgraffiad Roberth Owen yn Hanes Eglwysi Annibynol Cymru.

Dyry'r awduron gofnodion bywgraffyddol, canmoliaethus heb eithriad bron, wrth drafod hanes yr eglwysi. Ond wrth ymdrin â Sion, Cwmafan, dyma a geir:

*Robert Owen. Yr oedd yn enedigol o Lanfyllin. Cafodd ei urddo yn Bwlchtocyn, Lleyn, sir Gaernarfon, Medi 12fed, 1820. Dywedir iddo fod yn barchus a thradefnyddiol yn sir Gaernarfon am rai blynyddau. Yn 1834 symudodd i Gwmafan, a bu yn lled dderbyniol yma nes i'r eglwys a'r ardal gael allan nad oedd yn bucheddu yn deilwng o gristion (sic). Wedi ymadael a Chwmafan bu am ychydig amser yn Carmel, Llansadwrn, ond er's rhai blynyddau cyn ei farwolaeth yr oedd wedi myned yn wrthodedig ym mhob man. Y mae wedi cael ei alw i roddi cyfrif o'i weithredoedd er's mwy nag ugain mlynedd bellach. Prin y mae cymeriad o'r fath yma yn haeddu sylw, ond gan ei fod ef a llawer eraill a grybwyllir gynym yn nglyn a gwahanol fanau, wedi bod mewn cysylltiad cyhoeddus a'r weinidogaeth, y mae cywirdeb hanesyddol yn galw arnom i wneyd rhyw gyfeiriad atynt.*

Casglwyd emynau Mary Owen ynghyd, a'u cyhoeddi, yn 1839. (Cafwyd argraffiadau wedyn yn 1840, 1841 a 1842.) Maent yn perthyn felly i'r cyfnod pan oedd hi'n ymdrechu i fagu'r plant, mewn hiraeth ar ôl Thomas Davies, ei thad, a'i chwaer, ac i flynyddoedd cynnar ei phriodas â Robert Owen. Yn sicr ddigon, gwelir ynddynt adlewyrchiad o erwinder ei bywyd yn ystod y cyfnod hwnnw.

Mae'r bardd Caledfryn, a gyhoeddodd y casgliad o'i hemynau, yn sylwi yn ei ragair ar y ffaith mai prin yw'r merched a oedd yn mynd ati i gyfansoddi emynau:

*Hoff fyddai gweled ychwaneg o wragedd crefyddol yn efelychu mwy ar y Gristiones ostyngedig a hunan-ymwadol hon, drwy droi eu doniau a'u galluoedd ar lesáu eu cydfforddolion tu a byd arall,*

ac y mae'n ychwanegu y bydd *'darllen a chanu y rhai'n yn foddion i ddyddanu a chysuro y saint ar eu taith drwy'r anialwch'*. Mae'r sylw hwn o'i eiddo yn crynhoi thema bwysicaf emynau Mary Owen, sef y cysur a'r diddanwch a geir yn Nuw ynghanol treialon byd.

Bu Mary Owen yn ddygn a ffyddlon ym mhethau crefydd tan y diwedd. Yn ystod saith mlynedd olaf ei hoes, bu'n gaeth i'w chartref, ond trefnwyd fod cyfarfod gweddi i'w gynnal yn ei hystafell bob pythefnos, a deuai gweinidog Bethesda yno i weini'r cymun iddi bron bob mis. Ymhlith yr hanesion a adroddir amdani, y mae hwn:

Ychydig cyn ei marwolaeth gofynnai un cyfaill iddi: *'Mae eich trallodion a'r cystudd wedi bod yn chwerw ac yn faith: pa fodd yr ydych yn teimlo dan y fflangell?'* Atebodd hithau: *'Ni ddarfu i mi ond teimlo'r wialen: fe gymerodd fy Mrawd Hynaf ergydion trymaf y fflangell.*

Bu farw'r emynyddes ar y chweched ar hugain o Fai, 1875.

**_Branwen Jarvis_**



*Dyma'r unig lun o Mary Owen hyd y gwyddom.*

## ARGRAFFIADAU

Dros benwythnos y Pasg, buom ar daith i Ardal y Llynnoedd. ’Roedd llawer blwyddyn wedi mynd heibio ers y tro diwethaf i ni fod yno ond nid oedd llawer o ddim wedi newid! Cychwyn mewn bws fore Gwener y Groglith a chael digon o gyfle i edrych dros y cloddiau a dotio at rai o’r gerddi a’r olygfa yn gyffredinol. Roedd y tywydd o’n plaid ac fe wnaethom aros am sbel yn Kendal. Rhaid oedd prynu dipyn o *Kendal Mint Cake* – rhywbeth nad oeddwn wedi’i flasu ers blynyddoedd lawer ond mae dipyn yn rhy felys gen i. Ei ganfod yn y diwedd mewn archfarchnad lewyrchus iawn o’r enw *Booths* ac roedd sawl un o’r rhain o gwmpas Ardal y Llynnoedd. Roedd hon yn un o’r siopau glanaf a thaclusaf yr ydym erioed wedi’i weld a phwyslais ar werthu cynnyrch lleol.

Roedd y gwesty’n gyfforddus a digon o le o gwmpas i fynd am dro ar ôl swper. Cawsom ymweld â Grassmere, Keswick a gorffen i fyny yn Bowness ar y Sul. Roeddym yn gwybod fod gwasanaeth am 11 y bore yn Eglwys St. Mark, Windermere ac aeth pedwar ohonom yno a chael croeso cynnes iawn. Wrth gyrraedd, cawsom dusw bychan o Gennin Pedr a’n gwahodd i’w roi mewn croes fawr. Byddai’r groes yn cael ei rhoi y tu allan i’r eglwys ar y dydd Llun. Cawsom gannwyll a threfn yr oedfa hefyd a daeth un o Gymru atom i’n croesawu. Roeddem yn hoffi’r eglwys yn arw oherwydd roedd yn amlwg fod llawer o waith diweddaru wedi cymryd lle ar yr adeilad.

Roedd y nenfwd wedi’i orchuddio’n gelfydd iawn mewn pren a muriau gwydr wedi rhoi i lawr yr ochrau – roedd rhai o’r plant lleiaf yn cael eu diddanu y tu cefn i’r mur gwydr. Roedd cadeiriau cyfforddus iawn gyda lle i gadw’r llyfr emynau.

Yn ystod yr emyn cyntaf roedd y person ar ben y rhes yn derbyn golau ar y gannwyll ac yna trosglwyddo’r fflam o un gannwyll i’r llall. Cadwyd y fflam ynghyn tra’n sefyll i’r darlleniad cyntaf a’r weddi. Cafwyd gwasanaeth hyfryd dros ben ond och a gwae, d’oedd fawr o siâp ar y canu er bod yna gôr bychan.

Y rheswm pennaf am hyn oedd fod yr organ a’r côr yn rhy ddistaw ac oherwydd hyn, nid oed digon o arweiniad i’r gynulleidfa. Er hyn, cafwyd gwasanaeth a chymun bendithiol a’r gynulleidfa rymus yn cynnwys teuluoedd tair cenhedlaeth.

Un peth yr oeddem wedi sylwi arno wrth deithio o gwmpas oedd mai ychydig iawn o gapeli oedd i’w gweld. Roedd tŵr eglwys i’w weld ymhob tre a phentre ond un capel welsom ni yn y cyffuniau wrth ymchwilio amseroedd gwasanaethau ar y we. Gwahanol iawn i Gymru! Peth arall ddarfu ein taro ni – d’oedd dim llawer o felinau gwynt cynhyrchu trydan i’w gweld yn gorymdeithio dros y tirwedd ymhob man!

Cerdded yw’r prif atyniad yn ardal y Llynnoedd, wrth gwrs. Roedd modd mynd ar gwch a chroesi llyn Windermere i Bowness ac roedd digon o gyfle i siopa mewn rhai bychan oedd yn gwerthu nwyddau cartref – artisan ac wrth gwrs digonedd o leodd i gael pryd o fwyd neu baned a theisen – digon tebyg i Borthaethwy a Biwmares i ddeud y gwir! Buom yn ffodus i gael tywydd da i fwynhau bod allan yn yr awyr iach ond stori wahanol fyddai petai hi wedi bwrw! Bu’n rhaid hepgor aros yn Southport ar y ffordd adra a mynd am Lerpwl, ond d’oedd y tywydd yn fanno chwaith ddim yn denu rhywun i stelcian y tu allan!

***Siân Arwel***

*Gwelir Beti ac Eurfryn yn sgwrsio ar ddiwedd yr oedfa ac mae modd gweld yr addasiadau wnaethpwyd y tu mewn.*



## OEDFAON A CHYFARFODYDD MAI

**Bore Sadwrn, 6 Mai 10 tan 12** Bore Coffi Masnach Deg

**Bore Sul, 7 Mai** Oedfa gymun dan arweiniad y gweinidog

**Bore Sul, 14 Mai** Oedfa pob oed dan arweiniad y gweinidog

**Pnawn Mawrth, 16 Mai** Cyfarfod '*paned a sgwrs*' o 3 tan 4

**Bore Sul, 21 Mai** Oedfa dan arweiniad Dr Eryl Wyn Davies

**Bore Sul, 28 Mai** Oedfa dan arweiniad y gweinidog

*****



## LLION YN DATHLU PEN BLWYDD ARBENNIG

*Llongyfarchiadau mawr i Llion, mab Chris ac Eirian Williams, Clegir, Llanrug ar ddathlu ei benblwydd yn 50 yn ddiweddar.*

*Cafodd barti gyda llond y lle o deulu a ffrindiau ac yn goron ar y cyfan cafodd fynd i gyngerdd Dafydd Iwan.*

*Pawb yn falch dy fod wedi cael diwrnod da Llion.*

## Y NEGESYDD

Mae ein diolch y mis yma
i Siân Arwel a Branwen Jarvis
am gasglu deunydd ar gyfer y rhifyn yma.

Dylid gyrru eitemau ar gyfer rhifyn Mehefin
i Dylan a Carol Owen erbyn 24 Mai.
ebost : dol@btinternet.com
ffôn : 01248 351551

gyda chopi (cc) i'r Negesydd
ebost : negesydd@btinternet.com

### CYMORTH CRISTNOGOL - *Nodyn ychwanegol*

**Derbyniwyd llythyr o gydnabyddiaeth am y cyfraniad o £480.00 anfonwyd ar ran Eglwys Emaus ddechrau Ebrill. Mae'r cyfraniad yma yn ychwanegol i'r rhai a anfonwyd yn uniongyrchol at yr elusen.**

***Llawer o ddiolch am bob cyfraniad.***

## CYMORTH CRISTNOGOL



***Mae Esther Saizi yn aelod o gwmni cydweithredol sy'n gwneud bara gyda blawd colomen-bys*** (pigeon-pea, math o cyw-bys/ chick-pea***). Bob bore maent yn cwrdd yn y warws mae Cymorth Cristnogol wedi adeiladu ac yn defnyddio'r popty mawr yno i bobi bara i werthu yn y farchnad.***

**APÊL WYTHNOS CYMORTH CRISTNOGOL 2023**

Ffocws yr Apêl eleni yw codi arian i gynorthwyo ffermwyr colomen-bys ym Malawi.

Mae ffermwyr bychain ym Malawi yn cael hi'n anodd cael pris teg am eu cynnyrch. Maent hefyd yn brwydro yn erbyn yr argyfwng hinsawdd, gan fod tymereddau uwch a llifogydd cyson yn gwneud hi'n galed i dyfu rhai cnydau.

Ond mae un cnwd yn fwy gwydn na'r gweddill, sef colomen-bys. Mae'r hedyn bach ond nerthol yma yn gallu dygymod a sychder, adfywio'r pridd ac yn uchel mewn protein. Dyma'r cnwd sy'n dod a gobaith a bendith i Esther a ffermwyr eraill tebyg iddi ym Malawi.

Partneriaid Cymorth Cristnogol ym Malawi yw Cymdeithas Ffermwyr Nandolo (NFA) a Sefydliad Cynghreiriol Datblygiad Africa (ADAF). Mae NFA yn helpu ffermwyr i farchnata eu cynnyrch, ffurfio cwmnïau cydweithredol ac i gynyddu eu cynhaeaf pys colomennod. Mae ADAF yn helpu ffermwyr gyda benthyciadau os na allent gael un o rywle arall ac yn hybu cymdeithasau cynilo a benthyg lleol.

Un o'r ffermwyr sydd wedi cael cymorth gan NFA yw Esther Saizi. Mae gwerthu colomen-bys yn ogystal â'r bara mae hi'n pobi o'r blawd wedi galluogi Esther i dalu am hyfforddiant i'w merched ac ysgol feithrin i'w wyrion. Yn y gorffennol cafodd hi'n anodd cael pris teg am ei chynnyrch a chollodd llawer o'i chnydau i Storm Drofannol Ana. Ond wedi ymuno a rhaglen pys colomennod NFA a dechrau gwerthu fel rhan o gwmni cydweithredol, mae Esther yn ennill mwy o arian. Gyda'r elw mae hi wedi prynu geifr, sy'n cynhyrchu gwrtaith ar gyfer ei chnydau ac yn arbed gwario ar gemegau drud. Rŵan mae Esther yn cadw'r pys mewn warws, yn ddiogel rhag llifogydd a stormydd. Heblaw am y blawd ar gyfer bara, mae hi hefyd yn gwneud bwyd pysgod o'r pys gan ddefnyddio peiriant arbennig brynwyd gan Gymorth Cristnogol at ddefnydd y cwmni cydweithredol.

*"Rydym yn gymuned sy'n cynorthwyo ein gilydd yn wastadol,"* meddai Esther. *"Os yw rhywun mewn trafferth nid ydym yn gadael iddynt ddioddef ar eu pen eu hunain."*

Dyma sut mae'r arian a gesglir yn ystod Wythnos Cymorth Cristnogol yn gallu helpu:

Mae £50 yn darparu hadau pys colomennod ac offer ffermio i un teulu.

Mae £70 yn prynu beic fel gall ffermwr profiadol teithio i ardaloedd pellennig i ddysgu sgiliau busnes hanfodol i eraill.

Mae £250 yn talu am bopty cymunedol fel gall mwy na 800 o ffermwyr troi eu pys colomennod yn elw drwy bobi bara.

Mae £1,000 yn talu am brosesydd bwyd pysgod, sy'n galluogi cwmnïau cydweithredol i droi pys colomennod yn fwyd pysgod a magu pysgod i werthu.

**BETH AM GYFRANNU I APÊL CYMORTH CRISTNOGOL ELENI A CHEFNOGI FFERMWYR DIWYD A DYGN FEL ESTHER?**

**Dyma raglen digwyddiadau Wythnos Cymorth Cristnogol ym Mangor eleni:**

Dydd Sadwrn, Mai 14eg – Te Prynhawn
o 2 tan 4yp yn 24 Garth Wen, Llanfaes.
Noson Dawnsio Gwerin am 6:30yh yn Neuadd Eglwys Sant Ioan.

Dydd Llun Mai 15fed - Oedfa ddwyieithog am 12:30yp ym Merea Newydd
Cinio bara a chaws i ddilyn

Dydd Gwener Mai 19eg – Stondinau cacennau a garddio o 10 tan 12yp yn Gerddi'r Orsaf Bysiau (gyferbyn a Neuadd y Penrhyn)

Mae gennym dudalen JustGiving hefyd i dderbyn rhoddion ar-lein:

***https://bigpeachallenge.christianaid.orp.uk/fundraising/her-mawr-y-pys-2023-big-pea-challenge***

# CORNEL POSAU GARETH

ATEB I BOS EBRILL 2023

**POS DIGIDAU**

**Y pedwar rhif 1, 1, 2 a 4**
**Cyfanswm y rhifau yw 8,**
**a'u lluoswm yw 8 hefyd**



## POS MAI 2023

**POS BLODAU**

Mae Alison, Branwen a Carys yn creu hetiau blodau. Wrth i'r dair gyfarfod i edmygu eu creadigaethau mae Alison yn gallu gweld 15 blodyn (ar hetiau'r ddwy arall), Branwen yn gweld 13 a Carys yn gweld 12.

**Sawl blodyn sydd yn het Alison?**

# BLODAU

*Diolch i Sian Arwel, Branwen Jarvis*
*ac Alison Carden*
*am roi'r blodau ar gyfer mis Ebrill.*

## MIS MAI

**Mai 7fed a'r 14eg**
**Marian Ifans**

**Mai 21ain a'r 28ain**
**Ann Roberts**

**Diolch i bawb sydd wedi llenwi'r daflen tan ddiwedd y flwyddyn.**
**Mae rhestr ar gyfer gweddill 2023 yn y cyntedd,**
**neu mae croeso i chi gysylltu gyda Kath neu Meriel.**

***Kath Jones*** 01248 353313
***Meriel*** 01248 352205
neu
merielparry@gmail.com

*Diolch*
***Meriel***

**MASNACH DEG**

Cynhelir bore coffi a stondin masnach deg fel arfer fore Sadwrn Mai 6ed o 10-12 o'r gloch. Mae croeso cynnes i bawb.

*Catrin*

LLYTHYR DIOLCH

Annwyl aelodau a ffrindiau Emaus,

Hoffem ddiolch unwaith yn rhagor i chwi oll am ymateb mor gadarnhaol i'n hapêl ddiweddaraf ar gyfer pobl Wcráin. Gwerthfawrogir eich caredigrwydd gan Dîm Adsefydlu Ffoaduriaid Gwynedd hefyd – maent yn ddiolchgar iawn am bob cefnogaeth. Rydych wastad mor barod eich cymwynas a diolchwn i chi am eich haelioni.

Cofion cynnes
Esyllt Bryn
(ar ran pwyllgor Pobl i Bobl)